## Gweddi am Genhadaeth leol yr Eglwys

Ein Tad a thad ein Harglwydd Iesu Grist, diolchwn i Ti am ganiatáu i ni fraint arall heddiw o ddod i'th bresenoldeb ar lwybr gweddi, er ein bod yn ymwybodol o'n methiant cyson. Cynorthwya ni i sylweddoli ein hanghenion ac i droi atat am arweiniad a gobaith gwefreiddiol y newyddion da.

Diolchwn i ti, O Dduw, am ddanfon dy Fab Iesu Grist i'r byd i osod ger ein bron y ffordd dra ragorol, dysgeidiaeth ddigyffelyb a chanllawiau i'n cynorthwyo i ddal ati heb dristáu. Gwelsom a phrofasom y weledigaeth a gafodd ei gwireddu'n llwyr yn aberth Iesu dros bob un ohonom. Mae'r gwirionedd yna yn newyddion da i'r holl fyd, i bawb o blant dynion; a'n braint a'n cyfrifoldeb fel eglwys leol, ac fel unigolion sydd wedi ymgrymu gerbron yr allor, yw dweud wrth ein cymdogion a'n ffrindiau yn y gymdogaeth am dy rodd fawr, trwy ein hymwneud dyddiol â'n teuluoedd ac aelodau o'n heglwys. Gwyddom fod y Newyddion Da hyn i bawb o fewn ein cymdeithas,

i'r tlawd a'r cyfoethog,
i'r ifanc a'r hen,
i'r claf ac i'r iach,
i'r person distadl a'r person amlwg,
i'r unig ac i'r cwmnïwr brwd,
i'r un sy'n wrthodedig
ac i'r un sy'n dderbyniol o fewn ein cymdeithas,
i'r un sydd heb hyder
ac i'r un sy'n orhyderus.

Gweddïwn, O Dad grasol, am i Ti adnewyddu dy Eglwys fyd-eang a'n heglwys leol gan ddechrau yng nghalon pob un ohonom ni. Boed i'th gariad weithio yn ein calonnau i'r fath raddau fel na allwn gadw'r newyddion da, ond bod rheidrwydd arnom i'w rannu ar air a gweithred â phawb y cawn y fraint o'u cyfarfod o fewn ein cymunedau. Dangos i ni o flaen popeth arall agenda'r gymuned. Hoffem, O Arglwydd da, ddarganfod beth yw anghenion dy bobl yn ein cymuned fel y gallwn gynnig cymorth yr Efengyl trwy dy nerth ac yn dy Enw i'n cymdogion. Yn ei Enw. Amen.